

CYFRIFOLDEBAU A GWOBRAU BOD YN RHIENI

Nodyn i'r siaradwr:

Mae'r amlinelliad hwn yn trafod penodau 7-10 y llyfr *Making Your Family Life Happy (fl)*. *Peidiwch*, fodd bynnag, â darllen ar gyfer y gynulleidfa yn uniongyrchol o'r llyfr. Defnyddiwch ddeunydd diweddarach o'r cyfeiriadau ychwanegol; fel hyn bydd eich deunydd yn newydd a chyfoes. Agorwch y Beibl yn aml, gan ddarllen yn uniongyrchol ohono fel sail eich awdurdod

BABAN DYNOL—O'I GENHEDLU I AMSER EI ENI (12 mun.)

'Rydym oll wedi bod yn blant a chennym ein plant ein hunain efallai 'nawr; beth wyddom ni am y wyrth hon gan Dduw?

Mae 'na ffeithiau rhyfeddol a dirgelion yn parhau ynglŷn ag atgynhyrchu (Salmau 139:16; *g92* 4/8 13-16; *fl* 81-2)

Mae datblygiad cynyddol yr embryo a'r ffetws yn rhyfeddod (Salmau 139:13, 15; *w92* 8/1 3; *g92* 1/22 14-17; *fl* 82-3)

Rhaid i newidiadau syfrdanol ddigwydd ar adeg geni (Salmau 139:14; *fl* 83-4)

Pa faterion pwysig y dylid eu hystyried yn ystod beichiogrwydd?

Sut mae arferion bwyta, yfed, ac arferion eraill y fam yn effeithio ar y baban (*g89* 2/22 9-10; *fl* 85-6)

Penderfyniadau i'w gwneud cyn geni'r baban (*fl* 87-9)

Pwysigrwydd awyrgylch y cartre' y bydd y baban yn dod i mewn iddo (*g88* 9/8 6; *fl* 90-2)

Fel mae plant yn wobwr oddi wrth Jehofah ac i dderbyn gofalu amdanynt (Salmau 127:3; *fl* 92-6)

ROLAU RHIENI (12 mun.)

Mae'n angenrheidiol i rolau'r tad a'r fam harmoneiddio fel eu bod yn cytbwysu'n dda (Phil 4:5; *fl* 97-8)

Rhan allweddol y fam (*fl* 98-101)

Mae hi'n gofalu am anghenion corfforol y baban

Rhaid iddi ofalu am anghenion emosiynol y baban, yn enwedig yr angen am gariad (1Thes 2:7; *g87* 5/22 7, 10-11; *fl* 100)

Rhan hanfodol y tad (*g87* 5/22 8-9; *fl* 102-6)

Dylai'r tad fod yn ymwneud â'r baban a'i ofal o'r cychwyn; daw ei ran e'n amlycach wrth i amser fynd heibio Mae e'n darparu anghenion materol a nodweddion gwrywaidd sy'n sicrhau datblygiad cytbwys personoliaeth y baban, yn enwedig os mai bachgen ydi'r plentyn

Eff sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ysbrydol wrth i'r plentyn dyfu (Deut 6:6, 7; Eff 6:4; *fl* 103 ¶13)

Cyfrifoldeb y tad, mewn cyd-weithrediad â'r fam, ydi disgyblu pan fo'i angen, gan wneud hynny'n gariadus a doeth (Col 3:21; Heb 12:7; *g87* 5/22 11)

Mae'r tad a'r fam yn bartneriaid ym materion y teulu (Preg 4:9; *fl* 106-13)

Maen' nhw'n gweithredu'n unol wrth hyfforddi a disgyblu'r plentyn (Diar 13:10)

Rhaid wrth gytundeb mewn llysddeuluoedd hefyd (*g86* 1/8 8-9; *w84* 10/15 21-5)

Mae rhieni doeth yn cydweithio i'w gwneud yn haws i'w plant eu hanrhydeddu nhw (Eff 6:2; *fl* 109 ¶24)

Mae rhieni yn cydweithio i greu awyrgylch cartre' heddychlon i'w plant (*fl* 112 ¶29)

Gall teuluoedd un rhiant, sydd â'r dasg anodd o fod yn "fam" a "thad," lwyddo gyda chymorth Jehofah (*w80* 9/15 19-20, 25)

HYFFORDDWCH EICH PLANT O'U BABANDOD (10 mun.)

Yr amser i ddechrau yw ar unwaith! (2Tim 3:15; *w88* 8/1 12-13; *w88* 5/1 6; *g90* 8/22 28; *fl* 114-16)

Mae pob plentyn yn wahanol, a dylid addasu hyfforddiant yn ôl personoliaeth a galluoedd pob un (*w88* 5/1 5; *fl* 116-19)

Helpwch eich plant i dyfu, gan roi anogaeth wrth iddynt wneud cynnydd a mentro pethau newydd (*g88* 9/8 7-8; *fl* 119-22)

Mae gofyn i rieni egluro rhyw i'w plant, yn enwedig pan ofynnant gwestiynau amdano (Cadwch yn fyr; *g92* 2/22 3-8; *fl* 122-4)

O fabandod ymlaen, mae plant yn dysgu o esiampl eraill a'u hefelychu

Mae'n hanfodol fod rhieni nid yn unig yn cyfarwyddo'n dda o ran gair ond hefyd yn gosod esiamplau ymddygiad da (*g87* 5/22 11; *fl* 124-8)

Rhowch gasgliad o werthoedd i'ch plant y gallant lynu wrthynt wrth iddyn' nhw fyw eu bywydau mewn byd llwgr (Eff 4:13-15; *fl* 128-30)

GWERTH DISGYBLU MEWN CARIAD (10 mun.)

Mae golygwedd gywir ac anghywir ynglŷn â disgyblaeth (Diar 13:24; *g87* 5/22 11; *fl* 131-4)

Dylech osod canllawiau a chyfyngiadau pendant i'ch plant (Diar 6:20-23; *w88* 8/1 18-19; *fl* 134-44)

Mae'n angenrheidiol i'r plant ddeall yn eglur beth ydi'ch canllawiau

Wrth ichwi ddisgyblu, mae'n bwysig eich bod chi'n cyfathrebu i egluro'r rhesymau am y disgyblu
Wrth ddisgyblu eich plant, efelychwch Jehofah, sy'n disgyblu mewn cariad (Diar 3:12; *fl* 144-5)

CYFRIFOLDEBAU BOD YN RHIENI YN DRWM, OND Y GWOBRAU'N BODDLONI (1 mun.)

Mae gan rieni'r cyfrifoldeb trwm o ddarparu bwyd, dillad, a chartre' i'w plant

Mae ar blant hefyd angen eu *cyfarwyddo*, eu cywiro, a'u harwain yn foesol gan eu rhieni

Dylai hyn fod yn rhan reolaidd o fywyd teuluol (Deut 6:6, 7)

Dylai gychwyn yn ystod babandod (Mc 10:13-16; 2Tim 3:15)

Bydd rhieni sy'n gydwybodol ofalu am y cyfrifoldebau hyn yn medi gwobrau mawr a byddant yn falch o'u plant
(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim
angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)